# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2 a Chynhadledd Fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Mehefin 2023

Amser: 09.15 - 12.33

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13355

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Kat Watkins, UNCRDP Development Officer, Anabledd Cymru<br>Megan Thomas, Swyddog Polisi, Anabledd Cymru<br>Zoe Richards, Learning Disability Wales<br>Adele Rose Morgan, Learning Disability Wales<br>Georgia Miggins, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru, Senedd Ieuenctid Cymru<br>Karen McFarlane, Plant yng Nghymru<br>Francesca Wright, Snap Cymru<br>Cath Lewis, Cŵn Tywys Cymru |

| | |
|---|---|
| | Chris Haines, Cymdeithas Awtistiaeth Cymru<br>George Baldwin, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar<br>Gwen Anslow, All Wales Forum |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - sesiwn dystiolaeth 3

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Anabledd Cymru, a chafwyd ymddiheuriadau gan Miranda Evans a oedd yn methu â dod i'r sesiwn.

2.2 Cytunodd Anabledd Cymru i ymchwilio ymhellach i ddarparu gwybodaeth am fynediad i ofal plant a data ar blant anabl sydd â Saesneg fel ail iaith.

## 3 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Anabledd Dysgu Cymru.

3.2 Gwnaethant gytuno i ddarparu sylwadau rhieni a gofalwyr ynghylch gallu plant ag anableddau i fynd i ysgol brif ffrwd leol.

3.3 Gwnaethant gytuno i roi ymatebion ysgrifenedig i unrhyw gwestiynau na roddwyd sylw iddynt.

## 4 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan TSANA.

4.2 Gwnaethant gytuno i roi enghreifftiau gan Fudiad Meithrin ar y rhwystrau i gael mynediad at ofal plant i blant sy'n niwrowahanol neu sydd ag anabledd dysgu. Gwnaethant gytuno hefyd i ddarparu rhagor o enghreifftiau o hygyrchedd yr ystâd ysgolion i ddysgwyr sydd â phob math o anableddau.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 8 Gwrandawiad cyn penodi Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil - trafod yr adroddiad drafft

8.1 Cytunwyd ar yr adroddiad drafft, a fyddai'n cael ei osod ar 8 Mehefin.